

CYFARFOD	PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI
DYDDIAD	8 Hydref 2026
TEITL	Blaenraglen Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
PWRPAS YR ADRODDIAD	Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2026/27
AWDUR	Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu

1. Mabwysiadwyd Blaenraglen ar gyfer 2026/27 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 14 Gorffennaf 2026.
2. Cymeradwywyd adroddiad yr Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion yn y cyfarfod. Penderfynwyd gofyn am ddiweddariad gan yr Aelod Cabinet Addysg ar weithrediad fesul argymhelliad ymhen oddeutu 6 mis. Mae diweddariad wedi ei raglennu ar gyfer cyfarfod 16 Mawrth 2027.
3. Yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 3 Medi 2026, bu trafodaeth am y posibilrwydd o gynnal Grŵp Tasg a Gorffen i ystyried deallusrwydd artiffisial ac ymddygiad plant a phobl ifanc mewn ysgolion. Daethpwyd i'r casgliad gan nad oedd yn glir beth yn union fyddai'r grŵp tasg a gorffen yn ei graffu, ni ddylid symud ymlaen gyda'r bwriad.
4. Roedd yr eitem 'Cyllido Addysg Uwchradd' wedi ei raglennu i'w drafod yn y cyfarfod yma.
5. Derbyniwyd cais gan yr Adran Addysg i lithro'r eitem i gyfarfod 10 Rhagfyr 2026, er mwyn caniatáu mwy o amser i lunio cynigion ar gyfer ymateb i'r sefyllfa gyllidol a'r heriau.
6. Yn dilyn ymgynghori gyda'r Cadeirydd, cytunwyd i'r cais i lithro'r eitem er mwyn sicrhau bod yr eitem yn cael ei graffu'n amserol i alluogi craffu i ychwanegu gwerth.
7. Gweler ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad, rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2026/27.
8. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi fabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2026/27.**

BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2026/27

Dyddiad	Eitemau	Rheswm dros graffu
18/6/26	• Polisi a Gweithdrefn Canu'r Gloch i Aelodau	Blaengraffu / Sicrhau trefn glir a chadarn
	• Cludiant Addysg	Blaengraffu / Gorwariant yn y maes
	• Adroddiad Perfformiad Addysg	Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor
	• Adroddiad Perfformiad Economi a Chymuned	Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor
	• Adroddiad Perfformiad Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol	Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor
14/7/26	• Adroddiad Perfformiad Cyllid	Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor
	• Adroddiad Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion	Ymchwiliad Craffu
	• Bwrlwm Canol Tref	Dilyniant / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus
8/10/26	• Cynllun Ymateb i'r Adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder	Sicrwydd o ran gweithrediad
	• Strategaeth 5 mlynedd Gwaith Ieuenctid	Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory
	• Cynllun Diwylliant Gwynedd	Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus
10/12/26	• Cyllido Addysg Uwchradd	Effaith cyllido ar addysgu mewn Ysgolion Uwchradd
	• Anghenion Dysgu Ychwanegol	Craffu'r ddarpariaeth addysg anghenion dysgu ychwanegol
	• Adroddiad Perfformiad Addysg	Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor
	• Adroddiad Perfformiad Economi a Chymuned	Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor
18/2/27	• Presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad disgyblion yn ysgolion Gwynedd	Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 17 Hydref 2024
	• Adroddiad Perfformiad Cyllid	Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor
	• Adroddiad Perfformiad Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol	Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor

16/3/27	Gwasanaeth Cefnogaeth Ysgolion	Gweithrediad y trefniadau newydd
	Adroddiad Cynnydd ar Argymhellion Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion	Tracio Argymhellion Ymchwiliad Craffu
	Cefnogi Busnesau a Mentrau Cymunedol	Dilyniant / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus

Eitem i'w ychwanegu pan yn amserol - Cynllun Gweithredu Strategaeth Economi Gwynedd